Rhosyn y Nadolig

Meddwl am Eraill / Gweld Cyfle / Dysgu rhoi

Drwy'r dydd 'roedd pobl wedi mynd a dod ar y stryd yn ninas Bethlehem. Doedd Josil ddim wedi gweld y fath bobl erioed. Roedden nhw'n mynd a dod i'r llety ym mhen pella'r stryd. 'Roedd bugeiliaid o'r bryniau uwchlaw wedi bod yn y llety. 'Roedd brenhinoedd mewn dillad drudfawr wedi cerdded ar hyd y stryd. 'Roedd hi ei hun wedi mynd yn ddistaw i'r llety i weld y baban Iesu. Trwy'r twll yn y coed wrth ymyl y preseb edrychai ar y baban bach yn gorwedd yn gwellt. 'Roedd pob un yn dod i mewn i'r llety yn cario anrheg a'i roi wrth ymyl y baban.

"Mi faswn i wrth fy modd yn medru rhoi anrheg i'r baban Iesu," meddai, "ond does gen i ddim arian i brynu anrheg." Teulu tlawd iawn oedd teulu Josil. Doedd gan ei rhieni ddim llawer o arian i gael bwyd i'r teulu.

Cafodd Josil syniad da! Tu allan i furiau Bethlehem, ar y bryniau 'roedd blodau'n tyfu. Blodau lliwgar o bob math. Beth am fynd a thusw o flodau lliwgar i'r baban Iesu, meddyliodd. Rhedodd nerth ei thraed i'r wlad o gwmpas. Chwiliodd am flodau lliwgar ymhob man. Ond 'roedd hi'n aeaf a doedd dim blodyn yn unman. Cerddodd ar hyd y bryniau i chwilio pob twll a chornel ond doedd dim blodyn i'w weld o gwbl. Yn ara deg, cerddodd Josil yn araf tua'i chartref. 'Roedd hi'n drist iawn, iawn. 'Roedd hi wedi meddwl rhoi tusw o flodau i'r baban Iesu, ond doedd yna ddim blodyn yn tyfu yn y gaeaf. Erbyn hyn 'roedd y dagrau'n rhedeg i lawr ei gruddiau.

Pan gyrhaeddodd Bethlehem 'roedd hi'n dechrau nosi. Wrth iddi gerdded ar hyd y stryd i gyfeiriad y llety gwelodd oleuni gwan yn dod o lantern oedd yn hongian yn y stabl.

"Mi wnai daro i mewn i weld y baban Iesu, cyn mynd adref." meddai wrthi'i hun.

'Roedd y drws cefn yn gilagored. Camodd i mewn yn ddistaw. Doedd yna ddim siw na miw yn unman. 'Roedd y baban bach

yn cysgu'n sownd. Edrychodd o'i chwmpas. 'Roedd ei rieni yn cysgu hefyd. Trodd i fynd tua'r drws ond er mawr syndod iddi beth oedd yn tyfu y tu allan yn ymyl y drws! 'Roedd blodau yn tyfu yno. 'Roedd hi'n sicr nad oedd hi wedi gweld y blodau'n tyfu pan aeth i mewn i'r stabl. Ond efallai ei bod yn rhy dywyll fel nad oedd hi wedi gweld y blodau yn ymyl y drws. Plygodd i lawr, yng ngoleuni'r lantern, i edrych yn ofalus ar y blodau. Ond doedd hi erioed wedi gweld y math yma o flodau yn tyfu ym Methlehem o'r blaen. Bob gwanwyn a haf byddai Josil yn crwydro'r bryniau i chwilio am flodau gwyllt. Fe fyddai'n siŵr o ddod a thusw i'w mam bob tro. Ond doedd hi erioed wedi gweld y math yma o flodau.

"Efallai eu bod nhw wedi cael eu plannu yn arbennig ar ei chyfer hi!"

Aeth ar ei chwrcwd a dechreuodd dorri'r blodau fesul un. 'Roedd ganddi gryn ddwsin o flodau hardd yn ei llaw. Ni feddyliodd am ei mam y tro hwn. Dim ond y baban Iesu oedd ar ei meddwl. Aeth, yn ddistaw ar flaenau'i thraed yn ôl i'r stabl a gosododd y tusw yn ddistaw wrth ymyl y baban bach. Aeth allan yn gyflym rhag ofn i neb ei gweld. 'Roedd hi wedi darganfod blodau oedd yn sicr o blesio'r teulu i gyd. 'Roedd hi mor hapus. Cerddodd adref yn llawen. Ddywedodd hi run gair wrth ei rhieni. Aeth i'w gwely'n dawel a chysgodd yn sownd drwy'r nos.

O Dduw, wnei di fy nysgu i roi rhoddion i bobl eraill. Amen.

- Sut ferch oedd Josil?
- Pa mor bwysig ydi dysgu rhoi?